# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 14 TACHWEDD 2016 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | U C Clay | A C S Colburn |
| N J Davies | C R Evans | E W Fitzgerald |
| F M Gordon | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | J W Jones | G Owens |
| G J Tanner | | |

| **Aelod Cyfetholedig** | **Aelod Cyfetholedig** | **Aelod Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | C A Holley | P R Hood-Williams |

**Hefyd yn bresennol: -**
Y Cynghorydd D H Hopkins - Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth
Y Cynghorydd C Richards - Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc
Y Cynghorydd R C Stewart - Arweinydd

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mike Hawes | Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Chris Howell | Pennaeth Rheoli Gwastraff |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaeth, Perfformiad a Chomisiynu |
| Katie Spendiff | Swyddog Hyfforddi a Datblygu Hawliau Plant |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Wendy Parkin | Uwch-gyfreithiwr |
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

### 86 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau

### 87 GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

### 88 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2016 fel cofnod cywir.

## 89 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 90 SESIWN HOLI AELOD Y CABINET: YR AMGYLCHEDD A THRAFNIDIAETH (Y CYNGHORYDD DAVID HOPKINS)

Rhoddodd y Cynghorydd D Hopkins anerchiad agoriadol byr am ei Bortffolio Cabinet cyn derbyn cwestiynau gan y pwyllgor a fu'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Adolygiadau Comisiynu
- Cyflwyno Cynllun Trwsio Tyllau yn y Ffordd mewn 48 awr
- Glanhau safleoedd bysus
- Monitro targedau ailgylchu a lleihau gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi oherwydd gwaharddiad ar dderbyn sachau du mewn rhai safleoedd amwynderau dinesig
- Tipio anghyfreithlon a chasglu gwastraff a chyflwyno sachau pinc newydd
- Aildendro am gontractau cludiant ysgol ac arbedion cysylltiedig
- Cynllun Cludiant Cynaliadwy
- Gwasanaethau Bysus - llofnodi'r cytundeb Partneriaeth Bysus o Safon gyda First Cymru a gobeithio y ceir manteision o ganlyniad i waith partneriaeth effeithiol
- Materion gorfodi sy'n ymwneud â pharcio anystyriol (rhwystro priffyrdd/palmentydd) a chyfrifoldebau priodol swyddogion gorfodi'r cyngor a'r Heddlu
- Safleoedd parcio a theithio - cau cyfleuster Fforestfach a darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer yr ardal honno
- Materion am safleoedd bysus/mannau codi ar lwybrau penodol
- Newid terfynau cyflymder ar Heol Caerfyrddin a Heol Tregŵyr-Llanrhidian
- Goleuadau stryd
- Defnyddio gweithwyr asiantaethau
- Cynnal a chadw morglawdd Tawe
- Baw cŵn a hysbysebu gorfodi

Cafwyd trafodaeth hefyd i ddeall yn well pam mae gwaith ar rai ffyrdd/gwaith amgylcheddol (er enghraifft gwaith y gofynnir amdano gan gynghorwyr) yn gorfod cael ei wneud gan yr awdurdod yn unig.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau amrywiol a mynegi sylwadau i Aelod y Cabinet a ymatebodd yn briodol. Dywedodd y byddai'n ysgrifennu at Brif Swyddog yr Heddlu ynghylch gorfodi parcio anghyfreithlon, a chysylltu â First Cymru ynghylch y safleoedd bysus y gwneir cais amdanynt. Byddai hefyd yn ymateb i'r aelodau ynghylch nifer y goleuadau stryd nad ydynt yn gweithio neu sydd wedi'u diffodd a'r gronfa ar gyfer gwaith cynnal a chadw morglawdd Tawe.

Diolchodd y cadeirydd i'r Aelod Cabinet am ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD** y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan gyfleu manylion y drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 91 CYNLLUN HAWLIAU PLANT A PHOBL IFANC - ADRODDIAD CYDYMFFURFIO Â CHYNNYDDN (Y CYNGHORYDD CHRISTINE RICHARDS).

Cyflwynodd y Cynghorydd Christine Richards, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc, yr adroddiad blynyddol a oedd yn nodi'r cynnydd ar ôl rhoi Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn Abertawe ar waith.

Mae'r adroddiad yn nodi sut mae'r Awdurdod yn ystyried CCUHP ar draws gwaith y cyngor a sut mae'n cael ei ymgorffori yn ei bolisïau a'i arferion gwaith amrywiol.

Cafodd y dulliau amrywiol a phellgyrhaeddol o gyfathrebu ac ymgynghori â phobl ifanc hefyd eu nodi, yn ogystal â'r hyfforddiant staff a wnaed, a chyfranogiad cynyddol gan ysgolion.

Dywedodd ei bod wedi ysgrifennu i Lywodraeth Cymru ynghylch y mater o blant sy'n cael eu haddysgu gartref a beth oedd y ffordd orau i wella cyswllt ac ymgynghori â nhw a'u rhieni. Roedd y pwyllgor yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd mewn paneli craffu eraill ynghylch diogelu'r plant hyn, ac absenoldeb deddfwriaeth sy'n sicrhau cyswllt. Rhagwelir y bydd rhyw fath o arweiniad anstatudol yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd y pwyllgor pan fydd yr awdurdod yn cael gwybod am fwriad rhiant i addysgu ei blentyn gartref, dylai'r awdurdod gynnwys gwybodaeth am ei gyfrifoldebau a hawliau'r plentyn mewn unrhyw gyngor a roddir. Roedd yr Aelod Cabinet yn mynd i edrych ar hyn.

Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys:

- Ymdrechion i roi llais i blant sy'n derbyn gofal a gwella cyfranogiad.
- Gwaith a wnaed gyda phlant a rhieni mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
- Cysylltiadau â'r Bwrdd Iechyd a gwaith i gefnogi Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
- Cynrychiolaeth Abertawe yn Senedd Ieuenctid y DU
- Yr angen i nodi effaith y Cynllun Hawliau wrth i'r gwaith hwn ddatblygu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am yr wybodaeth ddiweddaraf.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 92 ADRODDIADAU CYNNYDD Y PANEL PERFFORMIAD CRAFFU:

Rhoddodd y Cynghorydd U C Clay yr wybodaeth ddiweddaraf am waith a wnaed yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y Panel Perfformiad Gwasanaethau Oedolion newydd, y mae'n ei gadeirio, gan nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud.

(SYLWER: Bu'r Cynghorydd N J Davies (Is-gadeirydd) yn llywyddu ar gyfer yr uchod)

Rhoddodd y Cynghorydd M H Jones yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd am sefydlu a diwygio gwaith amlasiantaeth Panel Perfformiad Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Medi.

**PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 93 ADRODDIADAU CRAFFU - ADRODDIAD EFFAITH CHWARTEROL.

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad chwarterol drafft gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu i'r cyngor ar effaith craffu, a oedd yn cynnwys ymchwiliadau a gwblhawyd ar y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, ac Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Hydref.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar gynnwys yr 'Adroddiadau Craffu' drafft a'u cyflwyno i'r cyngor ar 24 Tachwedd 2016.

## 94 RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17.

Cyflwynodd y Cadeirydd Raglen Waith Craffu ar gyfer 2016/17.

Darparodd yr adroddiad y canlynol i'r pwyllgor:

- Y Rhaglen Waith Craffu bresennol;
- Cynllun ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor y dyfodol;
- Adroddiad cynnydd a chynllun ar gyfer y paneli a'r gweithgorau presennol amrywiol; a
- Chais am Graffu ar Benderfyniad y Cabinet gan Gynghorwyr ynghylch dymchwel adeilad Oceana.

Rhoddodd Mike Hawes, Cyfarwyddwr Adnoddau, yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r pwyllgor am y materion presennol sy'n wynebu’r Bwrdd Gweithredol ac yn effeithio arno, sy'n seiliedig ar y 5 prif flaenoriaeth gorfforaethol.

Amlinellodd y materion a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd pwnc canlynol:- dyfodol arian Cymunedau'n Gyntaf (dileu grantiau), ansicrwydd goblygiadau Prydael, ymyrryd ac atal yn gynnar, ymgorffori gwaith gwrthdlodi, prosiect rhieni a gofal plant, trefniadau diogelu (arfer da), goblygiadau ariannol a gweithredol Diogelu Rhag Colli Rhyddid, adfywio canol y ddinas (mae'r fargen ddinesig yn mynd rhagddi'n dda ac yn ennill cefnogaeth), cyflawniad disgyblion, darpariaeth EOATS yn y dyfodol, Bwrdd Gwella'r Prif Weithredwr - edrych ar NEETS, adolygiadau comisiynu sy'n parhau a rhai'r dyfodol, ehangu masnachol, agenda trawsnewid digidol, gwella gwasanaethau cwsmeriaid, agenda rhanbartholi, Bil Cymru (goblygiadau datganoli trethi cyllidol) ac amserlen y gyllideb a chynllun ariannol tymor canolig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr am yr wybodaeth ddiweddaraf.

Yna bu'r aelodau'n trafod yn fanwl y cais am graffu yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 20 Hydref ynghylch dymchwel adeilad Oceana, yn arbennig y cylch gwaith priodol a rôl pwyllgorau craffu a chynghori'r cabinet. Cynigiodd y Cadeirydd fod Gweithgor Craffu'n cael ei greu. Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried bod Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu'n mynd i edrych ar y penderfyniadau ynghylch adeilad Oceana, a'r angen i osgoi dyblygu.

**PENDERFYNWYD PEIDIO** â chytuno ar y cynnig ynghylch craffu ar Oceana.

## 95 AELODAETH PANELI A GWEITHGORAU CRAFFU.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i aelodaeth y Panel/Gweithgor Craffu.

Dywedodd fod y Cynghorydd P B Smith hefyd wedi nodi yr hoffai gael ei hychwanegu i'r panel parodrwydd plant i fynd i'r ysgol.

**PENDERFYNWYD** ardystio'r newidiadau i'r paneli/grwpiau a nodwyd yn yr adroddiad ac uchod.

## 96 LLYTHYRAU CRAFFU.

Adroddodd y Cadeirydd ar y llythyrau craffu.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** cofnod llythyrau'r Tîm Craffu

## 97 ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau craffu'n ddiweddar.

## 98 DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau craffu ar ddod.

## 99 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO (ER GWYBODAETH).

Nodwyd cynllun gwaith y Pwyllgorau Archwilio ar gyfer 2016/17.

## 100 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PWYLLGOR YN Y DYFODOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2016/17 (POB UN AM 4.30PM).

**NODWYD** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017

## 101 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD NESAF PANELI/GWEITHGORAU.

Rhoddwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.58 pm

**CADEIRYDD**